# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 ar 08 GORFFENNAF 2022, trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Mr Mark Tweed; yr Athro Syr Robin Williams; Dr William Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer Cofnod 82); Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor.

## 71. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

    1. Croesawyd Dafi Jones, Llywydd UMCA i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor;

    2. Croesawyd Aisleen Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, i'r Cyngor yn ei habsenoldeb.

2. Cydymdeimlad

    Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

    1. Dr David Law, cyn Uwch Ddarlithydd a phennaeth yr Adran Economeg;

    2. Dr Brian Harold Davies, cyn-ddarlithydd biocemeg;

    3. Yr Athro Mike Pearson, cyn ddarlithydd ac Athro Astudiaethau Perfformio;

    4. Tun Arshad, Cymrawd.

3. Llongyfarchiadau

    Llongyfarchwyd yr Athro Syr Robin Williams ar ennill Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol am ei gyfraniad oes i wyddoniaeth.

4. Dull Cynnal y Cyfarfod

    Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a

byddai'r eitemau dan sylw felly’n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**72. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**73. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2022 (COU2122-106).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**74. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2122-107).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**PENDERFYNWYD**

2. Cau eitem 37.10 gan nad oedd trafodaethau wedi symud ymlaen ar y mater [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**75. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-108).

NODWYD

1. Nodyn o'r penderfyniadau a wnaed rhwng cyfarfodydd trwy ohebiaeth neu trwy Weithred gan y Cadeirydd.

**76. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**77. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-109)

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.
2. Wrth roi sylw i gyllideb 2022, a oedd yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yn y cyfarfod, cafodd gwarged disgwyliedig y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ei nodi, ynghyd â data cyfredol am niferoedd myfyrwyr. Adroddwyd ymhellach fod y Diwrnod Agored diweddar wedi denu diddordeb sylweddol a bod niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol, yn enwedig, yn gadarnhaol ar hyn o bryd ac yn cael eu monitro'n ofalus.
3. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y bwriad i ddyrannu incwm Ymchwil o Ansawdd (QR) ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r FfRhY yn bryder sylweddol i Aberystwyth ac y byddai'r Is-Ganghellor yn codi hyn gyda'r Cyngor Cyllido. Nodwyd, er nad oedd y gyllideb am y ddwy flynedd nesaf yn debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol oherwydd trefniadau lliniaru, byddai'r cynnig presennol yn achosi heriau ariannol i PA o Flwyddyn 3 ymlaen. Nododd yr aelodau, o ystyried cyflwyniad PA o 100% i'r FfRhY, bod y posibilrwydd o gael cosb ariannol o ganlyniad i'r fformiwla Cyllid o Ansawdd i'w weld yn anghyson.
4. Nodwyd hefyd y cyfeiriad at y Gronfa Ffyniant Gyffredin a dywedwyd bod cydweithwyr yn yr adran Busnes Ymchwil ac Arloesi wedi bod yn gweithio ar y ffordd orau o ymwneud â'r gronfa. Roedd y Weithrediaeth wedi derbyn ac ystyried papur manwl ac wedi cytuno i lunio cais gan y Brifysgol mewn dau faes gwahanol o ddatblygiad proffesiynol parhaus: *Iechyd anifeiliaid, iechyd a lles pobl a hyfforddiant iechyd yr amgylchedd* yn ogystal â *Hyfforddiant mewn sgiliau digidol a thechnolegau sy'n ddibynnol ar sbectrwm*.
5. Tynnwyd sylw hefyd at adroddiad terfynol yr Arolwg Gwella Ansawdd a'r canlyniad hynod gadarnhaol, a diolchwyd i gydweithwyr, yn enwedig Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr, am eu gwaith yn sicrhau'r canlyniad hwn.
6. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan yr aelodau i'r cyfeiriad yn yr adroddiad at gyflwyno'r radd Nyrsio Milfeddygol, gan nodi pwysigrwydd cynnwys llwybrau galwedigaethol yn y portffolio yn ogystal â'r manteision strategol ehangach o weithio gyda chyflogwyr.

**PENDERFYNWYD**

7. Cynnwys diweddariad pellach am geisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y Dyddiau Strategaeth ym mis Medi **[GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi].

**78. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-110).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad interim cryno am weithgaredd iechyd a diogelwch.

2. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn yn y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ym mis Mehefin 2022, ynghyd â'r cynnydd wrth gyflawni'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y cynllun gweithredu. Roedd yr adran wedi cwblhau nifer o ddatblygiadau a oedd i'w cyflawni yn y cyfnod hyd at ddiwedd Gorffennaf ac roedd y rheiny bellach ar waith. Bu cynnydd sylweddol hefyd o ran sicrhau staff newydd i'r adran: roedd un swydd wag i'w llenwi ac roedd disgwyl y byddai hynny'n cael ei wneud erbyn dechrau'r Hydref.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

**79. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2122-111).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Yn benodol, roedd yr adroddiad yn nodi cynnnydd yr Undeb yn ei hymdrechion i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl myfyrwyr, y symud nôl i weithgaredd wyneb yn wyneb a gafodd ei groesawu gan yr holl fyfyrwyrr, a gwerthfawrogiad am natur gadarnhaol y berthynas â swyddogion y Brifysgol.

**80. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio (COU2122-112)

NODWYD

1. Cafodd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol am Chwarter 3 eu derbyn gan y Cyngor, gyda diweddariadau a gofnodwyd ers Chwarter 2 i'r incwm a'r cyllid ymchwil.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

**81. MATERION ARIANNOL**

1. Cyfrifon Rheoli

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2122-113).

   NODWYD

   Roedd yr adroddiad yn disgrifio perfformiad ariannol y Brifysgol hyd at ddiwedd Chwarter 3 (30 Ebrill 2022).

1. Roedd cyllideb y Brifysgol a gymeradwywyd am 2021-22 yn nodi gweddill o £0.1m ac yn C3 roedd y rhagolygon yn parhau yn unol â’r gyllideb. Er bod y sefyllfa’n dal i fod yn gymharol sefydlog, roedd rhai eithriadau o ran cost a chyllideb wedi eu nodi yn yr adroddiad. Roedd y gyllideb gyffredinol yn parhau’n ymarferol i'r Brifysgol.

2. Er nad oedd nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd wedi cyd-daro’n llwyr â disgwyliadau'r gyllideb roedd y Weithrediaeth wedi cyfeirio ystod o fesurau mewn ymateb i hynny. Cafodd y sefyllfa ei lliniaru hefyd gan ostyngiad yng nghyfraniadau USS a grantiau canol blwyddyn y corff ariannu.

3. Nodwyd hefyd y buddsoddiad ychwanegol mewn Seiber-hanfodion.

4. Roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi derbyn a nodi cynnwys Cyfrifon Rheoli C3 yng nghyfarfod mis Mai ac nid oedd gan y Cadeirydd sylwadau pellach am y cynnwys.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

2. Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau, Matthew Clarke (COU2122-114).

NODWYD

1. Bod y Pwyllgor Buddsoddiadau a’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi cymeradwyo'r strategaeth dad-fuddsoddi.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

3. Cyllideb 2022-23, a Rhagolygon Ariannol y blynyddoedd tan 2026-27

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU2122-115).

NODWYD

1. Roedd Cyllideb 2022-23 yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf am nifer myfyrwyr ac yn darparu hefyd ar gyfer twf cymedrol mewn meysydd wedi'u targedu. Cafodd cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer y gorwel cynllunio, ynghyd â chynllunio llif arian cysylltiedig, eu cynnwys hefyd.

2. Mae’r Brifysgol yn cynllunio am warged o £0.3 miliwn o Incwm a Gwariant yn 2022-23, gan adeiladu ar sail y gwarged a gynlluniwyd am 2021-22 a chan adlewyrchu perfformiad gwell. Mae'r rhagolygon tymor hwy yn dangos llwybr o wargedion sy'n cynyddu'n gymedrol, a hynny'n deillio o dwf cynaliadwy wedi'i gynllunio.

3. Nodwyd bod incwm Ymchwil o Ansawdd yn risg i'r gyllideb arfaethedig yn y blynyddoedd i ddod. Roedd hyn yn arbennig felly ym mlwyddyn 3 oni bai y gellid trafod mesurau lliniaru eraill yn y cyfamser.

4. Nodwyd hefyd bod cytundeb cyflogau yn cyflwyno risg i gyllideb y flwyddyn sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo cyllideb 2022-23, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad, ac i nodi'r rhagolygon am flynyddoedd i ddod.

4. <u>Gwaredu Asedau: Campws Arloesi Aber: Prydles Adeilad yr Arglwydd Milford</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod (COU2122-116)

NODWYD

1. Yn dilyn cais trwy Grŵp Rheoli Gofod y Brifysgol, bu’r Adran Ystadau yn trafod â chydweithwyr yng nghampws Arloesi Aber ynglŷn â darparu lle i fusnesau oedd wedi tyfu’n rhy fawr i’r gofod cychwynnol ym Mloc Swyddfeydd y Campws. Ar yr un pryd, roedd yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi wedi cyflwyno cynnig i gefnogi datblygiad gofod menter a gofod entrepreneuraidd, yn ogystal â strategaeth i ddefnyddio Cronfeydd Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) i greu lleoedd i'r diben hwn. Byddai'r cytundeb hwn yn cyflawni'r ddau nod.

2. Nodwyd mai cyfradd arfaethedig y rhent oedd £32,220 y flwyddyn galendr, am bum mlynedd, yn cynnwys tâl gwasanaeth FM, ond heb gynnwys cyfraniadau cymesur ar gyfer unrhyw gyfraddau perthnasol, cyfleustodau a chostau system ffôn.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r cynnig i ymrwymo i Gytundeb Tenantiaeth Busnes gyda’r Campws Arloesi Cyf i rentu rhan o lawr cyntaf Adeilad yr Arglwydd Milford.

5. <u>Diweddariad Fferm Penglais</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2122-117)

NODWYD

1. Yn 2013, roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gwerthu ac adlesu ar Fferm Penglais gyda Balfour Beatty a Legal & General, i ddatblygu llety ychwanegol i fyfyrwyr. Roedd hyn wedi creu atebolrwydd tymor hir i'r Brifysgol yn cynnwys taliadau yn erbyn y brydles a ariannwyd gan ffioedd myfyrwyr, a gafodd eu haddasu yn unol ag amodau ad-daliad y brydles a ymgorfforwyd yn y cytundeb.

2. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r dirywiad a ragwelir i Werth Presennol Net y prosiect yn seiliedig ar addasiadau wedi’u cymeradwyo, eu contractio a’u rhagweld ar

gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 a 2022-23. Nodwyd mae'r rheswm am y dirywiad oedd y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant (RPI) ers Ebrill 2021, a'i effaith ar fynegai costau'r prosiect, sydd wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r tybiaethau chwyddiant ar yr adeg y gosodwyd lefelau'r ffioedd.

3. Roedd y rhagolygon cyffredinol i'r NPV yn parhau i fod yn £0.9m, sy'n ffafriol o'i gymharu â'r model ariannol gwreiddiol. Fodd bynnag, argymhellwyd ailbennu cyfraddau ffioedd Neuaddau'r Brifysgol yng ngoleuni costau'r prosiect, dros fywyd y prosiect.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo ad-bennu ffioedd Neuadd fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.

6. <u>Adroddiad ar Gyllideb UMAber am 2022-23</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU2122-118).

NODWYD

1. Roedd yr Undeb yn derbyn taliad grant bloc blynyddol gan y Brifysgol i Undeb y Myfyrwyr er mwyn cefnogi gweithgareddau a sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn parhau'n hyfyw ac yn addas i'w diben. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, dim ond cynnydd cymedrol i'r grant bloc a wnaed, ac roedd yr Undeb yn sylweddoli sefyllfa ariannol ehangach y Brifysgol. Roedd wedi amsugno costau ac mewn rhai blynyddoedd bu gostyngiad cydnabyddedig yn y cyllid mewn 'termau real'.

2. Yn rhan o'i dulliau busnes arferol, yn ddiweddar cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr arolwg o'i lefelau tâl i staff a swyddogion. Roedd Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr yn awyddus i sicrhau cyfradd deg a chymharol o dâl. Argymhellai'r adroddiad daliad Grant Bloc o £868k am 2022-2023, ynghyd ag atodiad BUCS cysylltiedig o £58k. Roedd yr Undeb hefyd wedi cael cyllid ychwanegol ar gyfer swydd cyfnod penodol Cydlynydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn 2020-2021 ac felly byddai cyfanswm 2022-2023 yn cynnwys cyllideb i ariannu ail flwyddyn y swydd honno (£29k). Cyfanswm y gwariant arfaethedig oedd £910k

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo taliad Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr 2022-23 gwerth £910k (Grant Bloc o £823k, atodiad BUCS cysylltiedig o £58k ac ail flwyddyn y cytundeb cyfnod penodol dwy flynedd i swydd Cydlynydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru (£29k)).

***Nodyn ar ôl y cyfarfod: Yn yr adroddiad nodwyd mai £868k oedd y grant craidd, ond y cyfanswm cywir yw £823k.*** Y cyfanswm yw £910k, fel y cymeradwywyd.

7. <u>Strategaeth Ariannol, 2022-2025</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Stephen Forster (COU2122-119).

NODWYD

1. Ar ôl cwblhau'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ac effeithiau ariannol Covid-19, roedd y Brifysgol bellach mewn sefyllfa i gyflawni yng nghyswllt yr adfywiad canol tymor a wnaed i'r Strategaeth. Roedd drafft y Strategaeth Ariannol yn nodi'r amcanion ariannol dros y cyfnod sy'n weddill o Strategaeth y Brifysgol ac yn cynnig nifer o ddangosyddion ariannol allweddol.

2. Cafodd Polisi Drafft y Cronfeydd Wrth Gefn hefyd ei gynnwys yn Atodiad 4 y brif Strategaeth Gyllid.

3. Tynnwyd sylw'r aelodau at yr wybodaeth a ymgorfforwyd yn y ddogfen strategaeth yn amlinellu cefndir prosiect Fferm Penglais.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo drafft y Strategaeth Gyllid a drafft y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a atodwyd.

**82. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol

NODWYD

1. Roedd caniatâd cynllunio i alluogi'r gwaith adeiladu i ddechrau ar yr Hen Goleg yn yr arfaeth ac roedd naw amod i'w cyflawni a oedd yn cael eu trafod gan swyddogion y Brifysgol a Chyngor Sir Ceredigion.

2. Roedd caniatâd i gau Stryd y Brenin am gyfnodau allweddol o'r prosiect wedi ei gadarnhau.

3. Roedd swyddogion y Brifysgol yn cysylltu'n gyson â WEFO, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri i roi gwybod i bob un ohonynt am y datblygiadau.

4. Byddai'r Grŵp Goruchwylio yn cyfarfod yn fisol neu'n fwy rheolaidd yn ôl y galw, ac roedd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny i arolygu ar ran y Corff Llywodraethu.

**83. ADRODDIAD BLYNYDDOL UMABER I'R SENEDD**

DERBYNIWYD

Cyflwyniad Blynyddol i'r corff llywodraethu gan y Swyddog Materion Academaidd, Elizabeth Manners (COU2122-120).

NODWYD

1. Nododd yr Undeb bod llawer o gynnwys yr adroddiad yn ymdrin â materion yng nghyflwyniad y myfyrwyr i'r Arolwg Gwella Ansawdd (QER), gan gynnwys prosesau digidol, cydweithio ag Ysgol y Graddedigion i feithrin cysylltiadau ar draws y gymuned uwchraddedig, materion yn ymwneud â chysondeb, a chodi ymwybyddiaeth o gynrychiolwyr academaidd myfyrwyr yn fwy cyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

**84. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Canlyniad yr Arolwg o'r Dogfennau Llywodraethu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-121)

NODWYD

1. Yn unol ag arfer sefydledig, roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi adolygu dogfennau llywodraethu'r sefydliad a'r Rheolau Sefydlog. Cafodd adroddiad dilynol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio. Yn dilyn arolwg eleni, ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor, na'r Ystatud a'r Siarteri.
2. Yn dilyn ad-drefnu IBERS yn ddwy uned academaidd ar wahân, o 1 Awst 2022, argymhellwyd newid i Ordinhad 21 Unedau Academaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio a'r Senedd ym mis Mehefin 2022. Cafodd yr Ordinhad diwygiedig, yn dangos y newidiadau, ei gynnwys yn yr adroddiad er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD**

3. I nodi a chymeradwyo'r argymhellion gan y Pwyllgor Llywodraethu & Chydymffurfio a'r Senedd i ddiwygio Ordinhad 21 fel y nodwyd [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. <u>Diwygiadau i gylchoedd gorchwyl is-bwyllgorau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-122)

NODWYD

1. Fel mater o arfer sefydledig, roedd yn bryd adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau. Yn dilyn nifer fach o welliannau i gylch gwaith cyffredinol pwyllgorau yn 2021, ni wnaed argymhellion i ddiwygio telerau unrhyw bwyllgorau ar ôl adolygiad 2022.

3. <u>Canlyniad arolwg effeithiolrwydd pwyllgorau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-123)

NODWYD

1. Fel arfer sefydledig, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i lenwi holiadur i roi adborth adeiladol ar ddull gweithredu’r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Lle bo'n briodol, darparwyd yr ymatebion a gafwyd yn rhan o broses y flwyddyn flaenorol er mwyn gallu cymharu.

2. Llenwyd yr arolwg gan 66%, canran uwch na 2021, a diolchwyd i'r aelodau am wneud hynny. Cafodd nodyn o'r wybodaeth feintiol ac ansoddol ei gynnwys yn yr adroddiad a ddangosai fodlonrwydd cyffredinol â gweithrediad y Cyngor. Cafwyd nifer o sylwadau ar fanteision ac anfanteision cyfarfodydd ar-lein yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Awgrymwyd hefyd y gellid cyflwyno agendâu wedi’u hamseru.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw awgrymiadau mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Penderfyniad ynghylch cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2122-124)

NODWYD

1. Gwahoddwyd yr aelodau i drafod a chytuno ar fformat cyfarfodydd yn 2022-2023 gan ystyried manteision ac anfanteision cyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb.

2. Cytunwyd bod nifer o fanteision yn deillio o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac mai'r disgwyliad cyffredinol oedd y byddai aelodau ar gael i deithio i Aberystwyth i gyfarfod fel corff llywodraethu yn hytrach na chyfrannu trwy gyfarfodydd ar-lein yn gyson. Cydnabuwyd hefyd, fodd bynnag, bod gwaith neu amgylchiadau eraill ar adegau yn gofyn am gymryd rhan yn rhithiol, ond y byddai'r mwyafrif o gyfarfodydd - fel y’u rhestrir - yn cael eu cynnull wyneb yn wyneb gyda'r opsiwn i ymuno ar-lein pe na bai’n bosibl bod yno. Roedd yr adnodd i gyfieithu i'r ystafell gyfarfod rithiol ac anrhithiol wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Enwebu yn ddiweddar, ac fe fyddai'n cael ei fabwysiadu ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

3. Trefnu adnoddau ystafelloedd cynadledda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor fel y rhestrwyd ond sicrhau bod y cyfleuster ar gyfer trefniant cymysg, gan gynnwys cyfieithu, yn cael ei weithredu [**Gweithredu:** Swyddog Llywodraethu].

**85. RISG**

1. Penodi Archwilwyr Allanol a chytuno ar ffioedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2122-125)

NODWYD

1. Gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau a chymeradwyo ailbenodi KPMG yn Archwilwyr Allanol a phenodi TIAA yn Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r argymhelliad a wnaed yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 24 Mehefin 2022.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r argymhellion fel yr amlinellir.

2. Adroddiadau ac Argymhellion yr Archwiliadau Mewnol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Deloitte (COU2122-126)

NODWYD

1. Roedd Adroddiadau ac Argymhellion yr Archwiliad Mewnol wedi'u derbyn a'u trafod yn fanwl yng nghyfarfodydd mis Mehefin 2022 y Pwyllgor Archwilio, Risg & Sicrwydd, a'r Cyngor. Cafodd yr adroddiad ei gynnwys ar yr agenda mewn camgymeriad ac nid oedd angen camau na chymeradwyaeth pellach.

2. Nododd y Cyngor yr adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar Seiberddiogelwch ac fe'i sicrhawyd bod camau ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddai'r Pwyllgor Archwilio, Risg & Sicrwydd, a'r Cyngor yn cael eu diweddaru ar ddatblygiadau'r mater hwn. Ar ben hyn, fel y nodwyd yn yr argymhellion, byddai rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra yn cael ei threfnu yn ystod y flwyddyn academaidd newydd gan gynnwys sesiwn lefel uchel ar gyfer aelodau'r corff llywodraethu.

**86. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Y Polisi Rheoli Risg (COU2122-127);
2. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2122-128); a
3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredinol (COU2122-129).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**87. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-130):

1. Pwyllgor Enwebiadau (25 Mai 2022 ac 08 Mehefin 2022);

2. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (16 Mehefin 2022);

3. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (17 Mehefin 2022);

4. Y Senedd (22 Mehefin 2022); a

5. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (24 Mehefin 2022);

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr is-bwyllgorau.

**88. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

Ffarwelio

1. Hwn fu'r cyfarfod olaf o'r Cyngor i'r Athro Syr Robin Williams. Er y diolchwyd i Syr Robin yn bersonol yng nghyfarfod mis Mai, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ail-fynegi ei ddiolchgarwch i Syr Robin am ei gyfraniad amhrisiadwy i'r Brifysgol yn ystod ei gyfnod ar y corff llywodraethu ac i ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

2. Roedd Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro, wedi ymddiswyddo o'r Brifysgol ac wedi derbyn swydd ym Mhrifysgol Glasgow yn Hydref 2022. Diolchwyd i Kath am ei gwaith yn Ysgrifennydd y Brifysgol.